OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 1121 (Cy. 272)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Hydref 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *8 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 207(4) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010(**1**) a pharagraff 6(2) o Atodlen 17 iddi.

Yn unol ag adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 8 Hydref 2021.

### Diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021

**2.** Yn Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021(**3**), yn lle rheoliad 17(2) rhodder—

"(2) Cyfnod y datganiad achos ar gyfer hawlydd yw cyfnod o 8 wythnos gan ddechrau â'r dyddiad yr ystyrir bod y gydnabyddiaeth, a roddir o dan reoliad 13(1)(b)(i), wedi ei chael yn unol â rheoliad 75(11). Mae'n cynnwys unrhyw estyniad i'r cyfnod hwnnw a orchmynnir gan y Llywydd o dan reoliad 65."

*Jeremy Miles*
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion Cymru

6 Hydref 2021

(**1**) 2010 p. 15.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 209(6) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ddarllen bellach fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).
(**3**) O.S. 2021/406 (Cy. 132).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Tribiwnlys Addysg Cymru 2021 ("Rheoliadau'r Tribiwnlys").

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn rhoi rheoliad 17(2) newydd yn lle'r un presennol yn Rheoliadau'r Tribiwnlys i ddarparu mai cyfnod y datganiad achos ar gyfer hawlydd sy'n gwneud hawliad o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yw 8 wythnos gan ddechrau ar y dyddiad y ceir y gydnabyddiaeth fod hawliad wedi ei gael.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.